## Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Sir, Rhuthun, dydd Mercher, 20 Chwefror 2008 am 09.30 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J R Bartley, R E Barton, B Blakeley, J A Butterfield, M LL Davies, S A Davies, G C Evans, S Frobisher, M A German, D Hannam, K N Hawkins, E R Jones, H Jones, P W Owen, N P Roberts, S Roberts, J A Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson Hill, C H Williams, R LL Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a'r Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm (Prif Gymwysiadau), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G. Butler), Swyddog y Gwasanaethau Cwsmer (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB GAN

Y Cynghorwyr J Chamberlain Jones, J Davies, E Edwards, I M German, R W Hughes, M M Jones, G Kensler a D Owens

### 783 MATERION BRYS

**BWLCH AR GYFER Y CEIDWADWR**
Cyhoeddodd y Cadeirydd y bydd y Cynghorydd D Owens yn llenwi'r bwlch ar gyfer y Ceidwadwyr a hynny yn unionsyth.

### 784 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cafodd Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a'r Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ar gyfer derbyn penderfyniad y Pwyllgor, ei gyflwyno.

***PENDERFYNWYD** y dylai:-*

a) *ARGYMHELLION y Swyddogion, fel y maent yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynir, yn cael eu cadarnhau a bod caniatâd neu wrthodiad cynllunio ym mhob achos, yn cael eu cyhoeddi fel sy'n briodol dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref [Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir] Gorchymyn 1995, Y Ddeddf Cynllunio ac Iawndal,1991, y Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1944 a/neu Ddeddf Gynllunio [Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth] 1990 mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig dan y cynlluniau canlynol, yn amodol ar yr amodau a restrir yn y sgeidwl a gyflawnir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Cais Rhif | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 43/2007/1338/PC | Datganodd y Cynghorydd D A J Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth yn ei gylch<br>Dargadwad cysgodfan i'r drychiad blaen [cais ôl Weithredol]<br>**Canolfan Bowlio Gogledd Cymru**<br>**Ffordd Victoria [Gorllewin], Prestatyn**<br>**CANIATÁU** |
| 43/2007/1486/PS | Amrywiad I Amod Rhif 1 ar ganiatâd cynllunio Cyfeirnod Rhif 43/2007/0583/PS i ganiatáu oriau agor rhwng 0800-0030 o'r gloch dydd Sul i ddydd Mercher a rhwng 0800 – 0100 dydd Iau ac 0800 – 0030 o'r gloch ar ddyddiau Gwener a Sadwrn<br>**29/31/33/33A Stryd Fawr, Prestatyn** |

| | |
|---|---|
| | **CANIATÁU**<br>Yn ddarostyngedig i Amod Diwygiedig:<br>1. Dim ond yn ystod yr oriau a ganlyn y bydd yr eiddo yn agored i'r cyhoedd<br>08.00 Dydd Sul – 00.30 Dydd Llun<br>08.00 Dydd Llun – 00.30 Dydd Mawrth<br>08.00 Dydd Mawrth – 00.30 Dydd Mercher<br>08.00 Dydd Mercher – 00.30 Dydd Iau<br>08.00 Dydd Iau – 01.00 Dydd Gwener<br>08.00 Dydd Gwener - 01.30 Dydd Sadwrn<br>08.00 Dydd Sadwrn - 01.30 Dydd Sul |
| 43/2007/1509/PC | Codi estyniad sydd â tho ar ongl ar ochr yr annedd, ffurfio ffenestri cromen yn y blaen [gan gynnwys 3 thalcen] ynghyd â chyntedd wrth y fynedfa yn y blaen (yn rhannol ôl-weithredol)<br>**Highfield, Ffordd Coed yr Esgob, Prestatyn**<br>**CANIATAU** |
| 45/2007/0984/PF | Datganodd y Cynghorydd H Jones ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth yn ei gylch.<br>Dymchwel gweithdy a garejys presennol a chodi tŷ annedd yn eu lle<br>**Tir ar Fferm Merllyn, 23 Ffordd Dyserth, Y Rhyl**<br>**CANIATAU** |
| 45/2007/1442/PF | Newid defnydd o Siop Dosbarth A1 i Ddosbarth A3 bwyd poeth i'w gludo allan<br>**70 Stryd y Frenhines, Y Rhyl**<br>**CANIATAU**<br>Yn ddarostyngedig i amod diwygiedig:<br>2. Dim ond yn ystod yr oriau 12.00 a 00.00 y bydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd. [hanner dydd tan hanner nos]<br>Nodyn ychwanegol i'r ceisydd:<br>Cynghorir chi ynghylch yr angen i gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth drwyddedu wahanol a dylech gysylltu gydag adran drwyddedu'r Cyngor i dderbyn cyngor ynghylch y gweithdrefnau sy'n berthynol i'r defnydd a gymeradwyir yma. |
| 45/2007/1514/PF | Adeiladu llwybr beicio a phont newydd dros Gyt Y Rhyl.<br>**Tir hamdden rhwng Rhodfa Gwynfryn a Ffordd Cefndy , Y Rhyl**<br>**CANIATAU**<br>Gwnaeth y Cynghorydd D A J Thomas gais am iddo fod yn rhan o'r dyluniad mewn perthynas â rhwystro mynediad gan feiciau cwad a beiciau modur. |
| 47/2007/1242/PF | Adeiladu estyniad un llawr gyda tho ar oledd ar ochr annedd<br>**1 Bryn Ibod, Tremeirchion, Llanelwy**<br>**CANIATAU** |
| 04/2007/0516/PF | Yn dilyn yr ystyriaeth a roddwyd i 1 llythyr ychwanegol o gynrychioliad gan D a G Lewis, Nant yr Onnen a Tegfan, Betws Gwerfyl Goch am ganiatâd i godi 4 tŷ annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau i'r safle (arwynebedd 0.12ha)<br>**Tir yn ymyl y Tyrpeg , Betws Gwerfil Goch, Corwen**<br>**CANIATAU**<br>Yn ddarostyngedig i Amod Diwygiedig:<br>12. Byd y fynedfa a'r ymlediadau gweledol yn cael eu hadeiladu a'u gosod allan yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd cyn i neb ddod i fyw i unrhyw un o'r anheddau, ac na fydd unrhyw blannu nac |

unrhyw rwystr arall i welededd oddi mewn i'r ymlediadau gweledol sydd yn uwch na 1.05m o uchder ar unrhyw amser. Mae'r gymeradwyaeth yn amodol ar gwblhau Ymrwymiad 106 dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i sicrhau bod 1 [un] tŷ fforddiadwy ar y Safle:

- Darpariaeth un [a arenwir fel math 2] ar y safle am gost isel. Gydag ail opsiwn am RSL
- Bod yr holl waith adeiladu, a gwerthiant yr uned TFf i'w gychwyn cyn i neb ddod i fyw i un o'r 3 uned sydd i'w marchnata.

Os na fydd y rhwymedigaeth i wneud hyn yn cael ei gwblhau o fewn 12 mis i ddyddiad y Pwyllgor hwn, bydd y cais yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor a phenderfyniad yn cael ei wneud mewn perthynas â'r polisïau a'r arweiniad a fydd yn bodoli ar y pryd.

05/2007/1270/PC

Datganodd y Cynghorydd J Thompson Hill ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth yn ei gylch.
Gwaith adfer ar dir a fu gynt yn chwarel, gan gynnwys ail-broffilio llethrau, draeniad, mynediad/parcio a gwaith plannu [cais ôl-weithredol]
**Chwarel Pen – Y – Pigyn, Corwen**
**CANIATAU**

07/2007/0640/PF

Adeiladu 4 tŷ annedd a mynedfa newydd i gerbydau (arwynebedd y safle 0.24 ha)
A**r dir yn Y Fedw Waun, Llandrillo, Corwen**
**CANIATAU**
Mae'r argymhelliad yn amodol ar gwblhau Ymrwymiad dan Adran 106 o'r Ddeddf Gynllunio 1990 er mwyn sicrhau:-
Darpariaeth o un [1] tŷ fforddiadwy [TFf], a arenwyd fel PLOT 3 ar y safle, ar y dechrau fel tŷ i'w rentu'n breifat; ond fel tŷ i'w rentu i ddibenion cymdeithasol [RSL] fel ail ddewis ac yna ar gyfer y farchnad pris isel.

- Y ddarpariaeth ar PLOT 3 i'w adeiladu a'i gwblhau yn gyntaf, yn ystod cam cyntaf y datblygiad, a'r ail gam i'w gwblhau ar ôl i plot 3 a'r cam cyntaf gael eu cwblhau.

16. Dim ond wedi i'r Ymrwymiad gael ei gwblhau y bydd y caniatâd yn cael ei ryddhau. Rhaid cwblhau'r ymrwymiad o fewn 12 mis o ddyddiad penderfyniad y Pwyllgor i roi caniatâd; fel arall bydd y cais yn cael ei adrodd yn ôl i''r Pwyllgor a phenderfyniad yn cael ei wneud mewn perthynas â'r polisiau a'r arweiniad a fydd yn bodoli ar y pryd.

09/2007/1056/PF

**Llefarydd ar ran: Geraint Parry**
Yn dilyn ystyriaeth a roddwyd i 1 llythyr ychwanegol o gynrychioliad gan S.R. Hellon, Y Sgubor, Tŷ Isaf, Bodfari Trawsnewid adeilad fferm nad oes bellach ddefnydd arno a defnyddio rhan o dir amaethyddol fel talar tŷ, gosod offer triniaeth carthion preifat a gwneud newidiadau i'r fynedfa bresennol.
**Adeilad allanol yn ymyl Bwthyn Tŷ Isaf, Bodfari**
**Dinbych**
**CANIATAU**
**Yn ddarostyngedig i Amodau Diwygiedig**
3. Er gwaethaf y manylion ar y cynlluniau a gyflwynwyd rhaid i'r defnyddiau allanol sydd i'w defnyddio i ddiben ailsefydlu, newid neu fewnlenwi waliau'r adeilad fod o garreg naturiol i gydweddu gyda'r garreg ar yr adeilad presennol.
5. Dylai'r gwaith ar y cyffordd rhwng y ffordd fynediad arfaethedig a'r briffordd gael ei gwblhau ddim hwyrach na mis ar ôl i'r gwaith ar y datblygiad gael ei ddechrau.
Nodyn ychwanegol i'r Ceisydd:

Dylech sicrhau bod y llwybr cyhoeddus yn ymyl y safle yn parhau i fod yn ddi-rwystr bob amser.

16/2007/1428/PR

Yn dilyn ystyried 3 llythyr ychwanegol o gynrychioliad oddi wrth:

- Dr Ian Shaw, Tan y Gruglas, Llanbedr Dyffryn Clwyd
- Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE
- G Ellis a G Griffiths (darpar brynwyr yr Hen Ysgubor) Manylion am leoliad, dyluniad a gwedd allanol yr annedd a'r gwaith tirweddu ar y safle wedi ei gyflwyno yn unol ag Amod Rhif 1 o ganiatâd amlinellol

Cyfeirnod Rhif 16/2007/0420/PO
**Tir yn (rhan o ardd) Hen Ysgubor Plas Isaf , Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun**
**CANIATÁU**

(ii) GWRTHODIADAU

46/2007/0781/PF

**Llefarydd ar ran: Berwyn Owen**
Dymchwel y modurdy presennol ac adeiladu 30 o apartmentau a siop adwerthu ynghyd ag adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr (arwynebedd y safle 0.27ha)
**Modurdy Clwyd, The Roe, Llanelwy**
**GWRTHOD**
**Rheswm Ychwanegol dros Wrthod**
2. Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol mae dyluniad a maintioli'r adeiladau arfaethedig yn annerbyniol; nid ydynt yn gweddu gyda'r datblygiadau eraill yn y cyffiniau a byddent yn cael effaith negyddol ar y golygfeydd i mewn ac allan o'r Ardal Cadwraeth gerllaw, ar y brif ffordd i mewn i ddinas y Gadeirlan. Ystyrir bod y cynigion yn groes i Bolisïau CON 6 a GEN 6 (i) a (ii) o Gynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych.

(iii) **GWRTHODWYD** yn groes i Argymhelliad y Swyddog

45/2007/1448/PO

Datblygiad 0.07ha o dir trwy adeiladu un annedd a garej [Cais am ganiatâd amlinellol gan gynnwys lleoliad, dyluniad, gwedd allanol a mynedfa]
**Tir yng nghefn 51 Ffordd Brighton , Y Rhyl**
**GWRTHOD YN GROES I'R ARGYMHELLIAD**
Penderfynwyd gwrthod am y rheswm canlynol:
1.Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol byddai codi'r adeilad arfaethedig yn arwain at or-ddwysau datblygiad a byddai'n ffurf annerbyniol ar ddatblygu tir tu ôl i eiddo sy'n bodoli eisoes, ac yn debygol o gael effaith negyddol ar gymeriad y datblygiad yn y cyffiniau, gan leihau mewn modd annerbyniol ofod hamdden a darpariaeth parcio ar gyfer Rhif 51 Ffordd Brighton, gan greu potensial i weithgarwch ychwanegol ac amhariad ar breswylwyr Rhif 51 ac eiddo cyfagos, yn groes i Bolisi GEN 6 (i), (v), (vi) Cynllun Datblygiad Unedol Sir Ddinbych.
Gan fod y penderfyniad yn GROES i argymhelliad y Swyddogion gwnaed yr Argymhelliad ar sail y rheswm uchod.

(iv) **GOHIRIWYD** am y Rhesymau a roddwyd

45/2007/1233/PR

Cafodd manylion am Gam 1 y datblygiad, gan gynnwys lleoliad, dyluniad a gwedd allanol 149 o anheddau, tirweddu, ffyrdd mynediad a'r gwaith cysylltiol eu cyflwyno yn unol ag amodau rhifau 1 a 7 o ganiatâd cynllunio amlinellol côd rhif 45/2004/1376/PO

| | |
|---|---|
| | **Tir yn Ne Ddwyrain Y Rhyl, rhwng Bro Deg a Ffordd Dyserth, Y Rhyl**<br>**GOHIRIO**<br>Gohiriwyd er mwyn rhoi cyfle i'r swyddogion ymchwilio dosbarthiad unedau o dai fforddiadwy yng ngham 1 a'r camau a fydd yn dilyn. |
| 02/2007/0177/PF | Yn dilyn ystyriaeth i lythyr ychwanegol o gynrychioliad ar ran y ceisydd ac<br>▪ Eglurhad o ymateb Cadw<br>Adeiladu 15 o borthdai coetir ar gyfer eu gosod ar neu eu rhoi ar les i ddibenion hamdden a gosod system o danciau carthffosiaeth newydd<br>**Castell Rhuthun, Stryd y Castell, Rhuthun**<br>**GOHIRIWYD** ar gais y ceisydd er mwyn rhoi cyfle i negydu ymhellach gyda CADW ynghylch opsiynau i ddatblygu porthdai a'r cysylltiadau gydag Ymddiriedolaeth Elusennol i ddiogelu'r waliau Castell canololesol. |

**785 MATERION GORFODAETH**

| | |
|---|---|
| ENF/2003/00041 | **Coral Springs, Ffordd Rhuthun Road, Llandegla**<br>Defnydd anghyfreithlon o dir i osod carafán deithiol yn barhaol ar y safle i ddibenion preswyl.<br>***PENDERFYNWYD*** *bod awdurdod yn cael ei roi i gyflwyno Gorchymyn Rhybudd Gorfodaeth*<br><br>*i) rhoi terfyn ar y defnydd o garafán deithiol i ddibenion preswyl*<br>*ii) symud y garafán deithio oddi ar y tir*<br>*iii) i gychwyn trefn erlyn lle bydd unrhyw berson y mae'r Rhybudd wedi ei gyflwyno iddo yn gwrthod cydymffurfio gydag amodau'r Rhybudd*<br>*iv) Cyfnod y Cydymffurfiad :* ***3 MIS*** |
| ENF/2008/0O011 | **Tŷ'r Abaty, Ffordd Y Rhyl, Rhuddlan**<br>Torri 5 coeden i lawr yn groes i Orchymyn Cadwraeth Coed<br>***PENDERFYNWYD***<br>*i) Fe ofynnir am i gynllun tirweddu diwygiedig gael ei gyflwyno, yn dangos sut y bydd coed aeddfed newydd, i gymryd lle'r rhai a dorrwyd i lawr, yn cael eu plannu, er mwyn i hwnnw gael ei ystyried gan y Pwyllgor*<br>*ii) Dylai'r gwaith o ailsefydlu'r coed yn lle'r rhai a dorrwyd gael ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn unol â'r hyn a gymeradwywyd.*<br>Rhoi gwybod i aelodau Cyngor y Dref a'r wardiau. |

**786 DIWEDDARIAD – CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH**

Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd i ddiweddaru gwybodaeth yr aelodau am y cynnydd ar y safle uchod.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50am

*********